

Gwybodaeth Gefndirol: Y Celtiaid

Dylid cofio na chafodd y gair 'Celt' ei ddefnyddio tan y 17eg a'r 18fed ganrif. Heddiw, defnyddir y gair 'Celtiaid' i gyfeirio at bobl sy'n siarad grŵp o ieithoedd sy'n perthyn, sy'n cynnwys y Gymraeg, ac sy'n byw mewn gwledydd yng ngogledd orllewin Ewrop. Er hynny, mae tarddiad y bobl yma, eu hiaith a'u diwylliant yn ymestyn yn ôl bron 3200 o flynyddoedd o'r 21ain ganrif i ble mae Swistir ac Awstria fodern. Lledaenodd y diwylliant yma ar draws Gorllewin Ewrop. Newidiodd yr iaith a hunaniaeth wrth fudo ac fe wnaeth grwpiau o bobl oedd yn byw ar ynysoedd Prydain ac Iwerddon ei fabwysiadu.

Yn ôl cofnodion Rhufeinig roedd o leiaf pedwar grŵp gwahanol yn byw yn yr ardal a elwir yn Gymru erbyn heddiw. Roedd y Silwriaid yn byw yn ne Cymru a'r Deceangli yng ngogledd ddwyrain Cymru. Yr Ordoficiaid oedd yng nghanolbarth gogledd Cymru ac ar benrhyn Llŷn roedd y Gangani.

Mae archeolegwyr yn cyfeirio at y cyfnod cyn i'r Rhufeiniaid oresgyn Prydain fel yr Oes Haearn gan mai dyma pryd y defnyddiwyd haearn am y tro cyntaf i wneud offer ac eitemau eraill, yn hytrach nac efydd a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Mae haearn yn fetel llawer caletach nac efydd ac mae modd ei wneud yn llawer mwy miniog.

Yng ngogledd Cymru, dechreuodd yr Oes Haearn tua 800 CC (Cyn Crist) gan barhau hyd tua 78 AD (Anno Domini, sef Lladin Canoloesol am 'ym mlwyddyn yr Arglwydd'). Amcangyfrif yw'r dyddiadau yma, gan iddynt gael eu seilio ar y dystiolaeth archeolegol ddiweddaraf ac fe allant newid fel y deuwn ar draws tystiolaeth newydd a'i hastudio. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth o lygad y ffynnon am fywydau y bobl yma oedd yn byw yng Nghymru, a dyma pam fod astudio tystiolaeth archeolegol mor bwysig i ddeall sut roedd pobl yn byw, gweithio ac yn marw yn y cyfnod hwnnw. Gall y dystiolaeth archeolegol yma amrywio o bethau mawr fel waliau cerrig yn amgáu anheddiad, i wrthrychau bach iawn fel paill grawn o gnydau (y gellir ond eu hastudio o dan ficrosgop). Gall y dystiolaeth roi gwybod i ni sut roedd pobl yn byw a pha fath o gnydau roeddent yn eu tyfu.



Y CELTIAID

Gellir rhannu'r ardaloedd ble roedd y 'Celtiaid' yn byw yng ngogledd Cymru i wahanol fathau, y rhai mwyaf cyffredin yw bryngaerau a cheiri. Mae rhain yn glos-diroedd a leolir ar ben bryniau neu ar bentiroedd arfordirol (ardaloedd uchel o dir). Yn aml, roedd ganddynt dai crynion (cartrefi pobl) ynddynt. Weithiau roedd yr aneddiadau yma'n cael eu gadael ar ôl i'r Rhufeiniaid oresgyn ardal, ond parhawyd i ddefnyddio llawer ohonynt. Cloddiwyd llawer o'r safleoedd hyn i geisio eu deall ac i weld sut roedd pobl yn byw yno.



Roedd mathau eraill o aneddiadau heb eu hamddiffyn cystal ac maent yn cynnwys grwpiau caeedig ac agored o dai crynion. Roedd yr aneddiadau hyn mewn tirwedd amaethyddol ble tyfwyd cnydau a chedwid anifeiliaid. Fel arfer, mae gan y tai crynion eu hunain sylfeini crwn o garreg. Gallai deunyddiau adeiladu eraill gynnwys pren, clai a bangorwaith. Byddai tân ar yr aelwyd neu mewn twll coginio ar y llawr, oedd yn aml yng nghanol y man byw, wedi golygu mae'n debyg y byddai tu mewn i'r tŷ

crwn yn dywyll a myglyd. Weithiau, roedd anifeiliaid hefyd yn byw yn y tai crynion. Heblaw am fod yn gartrefi, roedd tai crynion weithiau yn cael eu defnyddio ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus neu gyfarfodydd.

Ambell dro mae hi'n anodd dod o hyd i adfeilion y mathau yma o aneddiadau ond gellid dod o hyd iddynt yn aml drwy edrych ar ffotograffau a dynnwyd o'r awyr. O dan yr amodau cywir, gall y gwahaniaeth mewn tyfiant glaswellt neu laswellt wedi crino ddangos presenoldeb ffos, hyd yn oed os ydyw wedi ei llenwi ac yn wastad ar ôl aredig. Mae rhai o'r safleoedd hyn yng ngogledd Cymru yn hawdd i ddod o hyd iddynt gan eu bod wedi goroesi yn y bryniau a heb gael eu niweidio gan amaethu mwy diweddar. Maent wedi eu dymchwel ond yn aml gellid gweld waliau'r tai wedi eu claddu o dan haen denau o laswellt.

Roedd mwyafrif pobl yr Oes Haearn yn byw ar ffermydd gyda theuluoedd estynedig; yn tyfu cnydau ac yn edrych ar ôl gwahanol anifeiliaid, yn cynnwys defaid a gwartheg. Roeddent yn gwneud eu dillad eu hunain drwy nyddu gwlan defaid yn edau gyda sidelli gwerthyd. Cai pob edafedd unigol wedyn eu gwehyddu gyda'i gilydd drwy ddefnyddio gŵydd. Pan fyddai anifeiliaid yn cael eu lladd i ddarparu bwyd, byddai eu crwyn yn cael eu trin a'u llunio'n ddillad oedd yn dal dŵr. Roedd hyn yn bwysig gan fod pobl yn treulio llawer iawn o amser tu allan. Nid oedd gan rhai pobl fferm i ennill bywoliaeth ond daethant yn grefftwyr gan wneud eitemau o emwaith personol fel broetshis a phinnau allan o dun, aur ac efydd. Defnyddiwyd y rhain i gau gwahanol haenau o ddillad gyda'i gilydd.



Byddai'r holl deuluoedd yma wedi helpu i edrych ar ôl y bobl bwysig oedd yn llywodraethu'r gymuned. Byddai crefydd wedi bod yn rhan bwysig o fywyd. Cyfeiriodd y Rhufeiniaid at rai ffigyrau crefyddol fel y derwyddon. Fe wyddom rhywbeth am sut roedd crefydd yn gweithio gan i'r Rhufeiniaid ysgrifennu am y derwyddon gan ddisgrifio sut yr oeddent yn addoli. Er hynny, rhaid cofio bod y Rhufeiniaid yn aml yn elynion i'r derwyddon ac roeddent yn annhebygol o'u darlunio yn gadarnhaol ac mae'n bosib fod llawer o'r hyn ysgrifennwyd ganddynt ddim yn wir. Er hynny, fe wnaeth y Rhufeiniaid fabwysiadu Duwiau Celtaidd a'u haddoli. Rhoddwyd enwau Rhufeinig i'r duwiau ac mae'r rhain wedi goroesi mewn arysgrifau ar gerrig. Rydym hefyd yn dod o hyd i eitemau ac weithiau hyd yn oed weddillion pobl y rhoddodd y derwyddon ac eraill hwy mewn mawnogydd, afonydd neu lynnoedd fel offfrwm defodol.

Ni wnaeth goresgyniad byddin Rhufain o Gymru weld diwedd cyfan gwbl ar yr Oes Haearn na'r ffordd 'Geltaidd' o fyw. Cafodd rhai geiriau cynhenid eu newid gyda geiriau Lladin, er enghraifft. 'pysgodyn' a 'pont', ond llwyddodd llawer o'r iaith i oroesi i fod y Gymraeg a siaradwn heddiw. Weithiau nid oedd milwyr Rhufeinig orffennodd eu gwasanaeth milwrol yng Nghymru yn mynd adref, gan benderfynu priodi rhywun lleol ac aros yn agos at eu cyfeillion yn y fyddin. Yn y pen eithaf arall, roedd rhai pobl yn ceisio byw mor bell i ffwrdd a phosib o'r Rhufeiniaid, gan eu hosgoi heblaw am gysylltiad anaml. Mae hyn yn rywbeth y gallwn ei weld o'r dystiolaeth archeolegol a welwyd pan gloddiwyd eu ffermydd.



Tu mewn i Dŷ Crwn

Roedd y gofod oddi mewn wedi ei rannu'n ardaloedd gwahanol – y gellid eu galw'n ystafelloedd. Weithiau byddai anifeiliaid yn byw mewn rhannau o'r tai crynion.

Roedd rhai tai crynion yn fawr – efallai iddynt gartrefu aelodau pwysig o'r gymdeithas. Gallasent hefyd fod wedi cael eu defnyddio i ddibenion cymunedol – fel man cyfarfod, ar gyfer cyfarfodydd, swyddogaethau gwleidyddol neu seremonïau ac ati.

Cafwyd hyd i domennydd sbwriel (sbwriel domestig) y tu allan i fynedfeydd tai crynion ac aneddiadau. Yn aml, tomennydd o gregyn ydynt wedi eu taflu ar ôl tynnu'r cynnwys i'w coginio a'u bwyta). Gwelir enghreifftiau o'r fath yng Nghytiau'r Gwyddelod (Grŵp Cytiau Mynydd Twr), Ynys Môn, lle canfuwyd cregyn llygaid maharen (*limpets*).

Weithiau byddai melinau llaw (cerrig malu a ddefnyddiwyd yn aml i greu blawd o wenith) yn ffurfio rhan o lawr y tai crynion.

Roedd y tân fel arfer ar ganol y tŷ crwn. Byddai'r mwg yn dianc drwy dyllau yn y nenfwd neu'r to gwellt yn hytrach na thrwy simnai. Byddai tu mewn y tŷ crwn yn dywyll ac yn siŵr o fod yn fyglyd. Mae'n bosib y byddai'r tân yn llosgi am 24 awr y dydd ac yn cael ei ddefnyddio i goginio ac i gadw'n gynnes.

Efallai fod symudiad yr haul yn ystod y dydd, a'r modd y byddai'n tywynnu ar y tŷ crwn, yn dylanwadu ar ba weithgaredd a fyddai'n digwydd, a phryd.

Erbyn hyn, cylchoedd carreg yn unig sy'n dangos adfeilion y tai crynion.

Mae sawl peth tebyg ac annhebyg rhwng y ffordd yr oedd pobl yn byw ddoe a heddiw. Un enghraifft amlwg yw diffyg trydan yn Oes yr Haearn – dim goleuadau trydan, popty, microdon, cawod, teclynnau electroneg, cyfrifiadur, teledu ac ati.

Sidelli gwerthyd

Defnyddiwyd sidelli gwerthyd yn y broses o nyddu gwlân i greu edafedd.

Rhoddir darn tenau o bren (troell) mewn twll a'i droelli.

Byddai darnau o wllân wedyn yn cael eu rhoi ar y sidell.

Wrth droi'r sidelli gwerthyd nyddir edafedd.

Cawsai'r sidelli eu defnyddio cyn troelli nyddu.

Mae archeolegwyr yn ystyried bod canfod sidelli gwerthyd yn dystiolaeth o greu defnyddiau a chadw defaid.

Gellid defnyddio sidelli gwerthyd wrth gerdded.

Caiff sidelli gwerthyd a sidelli eu defnyddio hyd heddiw.



Un o Sidelli gwerthyd Storiell

Pâr o fowntiau bwced pen ychen Rhufeinig-Prydeinig o gaer bentir Dinas ar Ynys Môn

Canfuwyd y mowntiau mewn tir bâs yn agos at ei gilydd.

Mr Peter Roberts ddaeth ar eu traws yn 1977 gyda chanfyddwr metel.

Cawsant eu cadw mewn labordy yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru am gyfnod.


Aeth aelod o Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd i'r safle gyda Mr Roberts i geisio canfod mwy o bethau ond yn anffodus roedd y twll wedi ei wneud yn fwy ac roedd tyllau eraill gerllaw.

Roedd y mowntiau wedi eu castio mewn metel tebyg i bres gan ddefnyddio'r un model ac roedd elfennau o waith dilynol oedd yn creu'r gwahaniaethau rhyngddynt (Castio – gwneud mwy nag un gwrthrych gan ddefnyddio'r un mowld.)

Nid oes gan yr ych glustiau – mae hyn yn anarferol mewn cynlluniau o'r fath ond ddim yn unigryw. Mypwy yr artist sy'n peri hyn.

A yw'n bosibl fod y lygiau / clustiau ar yr ochr (ar gyfer rhoi'r bwcedi arnynt) yn cynrychioli'r clustiau?

Mae hi'n anodd dyddio'r mowntiau'n bendant – o bosib rhwng yr ail a'r bedwaredd ganrif Oed Crist, o ystyried dyddiadau canfyddiadau tebyg.



Pâr o fowntiau bwced pen ychen Rhufeinig-Prydeinig



Gleiniau Gwydr Rhufeinig – Prydeinig, Llandygái

Canfuwyd 230 glain gwydr ac o leiaf 16 glain silindrog coch gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd ym Mharc Bryn Cegin, ger Bangor yn 2005.

Anheddiad tŷ crwn o gyfnod hwyr Oes yr Haearn / Rhufeinig – Prydeinig oedd ar y safle oedd yn cael ei gloddio.

Roedd y gleiniau mewn pydew bach yng ngogledd ddwyrain y safle.

Cafwyd tystiolaeth o waith gwydr ar y safle.

Glas yw lliw'r gleiniau, gyda phatrwm tonnog gwyn arnynt Cawsant eu creu trwy lapio gwydr tawdd (a doddwyd hefo tân) o amgylch mandrel (siafft neu werthyd.) Byddai'r gleiniau'n sownd yn ei gilydd i ddechrau.

Ar ôl oeri byddai'r gleiniau'n cael eu torri ar wahân.

Byddai darnau cras yn cael eu ffeilio a'u rhwbio i'w gwneud yn llyfn.

Nid oedd y gleiniau wedi cael eu defnyddio ac efallai iddynt gael eu creu i'w gwerthu i Rufeiniaid.

Cawsant eu creu, o bosib, yn y ganrif gyntaf neu'r ail ganrif Oed Crist.

Mae'n bosib eu bod wedi cael eu claddu er mwyn eu cuddio.

Mae'n debyg mai yn y tŷ crwn gerllaw y cawsant eu creu.



Gleiniau Gwydr Rhufeinig-Prydeinig Llandygái



Dau far haearn Rhufeinig-Prydeinig, Penrhos Lligwy, Ynys Môn

Dyma ddau far haearn Rhufeinig-Prydeinig sydd wedi eu creu o haearn bwrw.

Cloddiwyd gan Neil Baines ym Mhenrhos Lligwy, Ynys Môn yn 1920.

Daethpwyd ar draws y bariau mewn strwythur petryal ar ei ben ei hun ger Din Lligwy (anheddiad Rhufeinig – Prydeinig.)

Roedd y ddaear yn galed yn yr ardal lle canfuwyd y bariau, ac yn cynnwys llwch glo, darnau bach o lo a rhwd haearn.

Yno hefyd roedd darnau o slag (deunydd gwastraff caled a gaiff ei greu gan waith gofaint). Roedd y bariau haearn ymhlith y darnau hyn o slag.

Mae'n bosib fod glo o Falltraeth neu Drefdraeth wedi cael ei ddefnyddio gan y gofaint.

Byddai'r bariau wedi bod yn eithaf gwerthfawr yn y cyfnod y cawsant eu creu.

Yn ôl bob tebygolrwydd, y bwriad fyddai defnyddio'r haearn ar gyfer creu rhywbeth arall.

Nid wyddom a gafodd y bariau eu cynhyrchu'n lleol yntau eu mewnforio o rywle arall.

Mae'n bosib y gall datblygiadau gwyddonol yn y dyfodol ein cynorthwyo i ganfod ym mhle y cafodd y bariau eu llunio.



Dau far haearn Rhufeinig- Prydeinig

Llyfryddiaeth

- Baynes, E. N. 1960 A Smelting Floor at Penrhos Lligwy. In *Archaeologia Cambrensis* 1920. pp. 91–8.
- Brockhampton Reference, 1997 *Dictionary of Archaeology*, Brockhampton Press, London
- Boon, G. C. 1978 A pair of Romano-British ox-head bucket-mounts from Holyhead Island, *The Antiquaries Journal* Volume LVIII Part II Oxford, University Press
- Bradley, R., 1978 *The Prehistoric Settlement of Britain*, Routledge & Kegan Paul, London
- Cunliffe, B., 1991 *Iron Age Communities In Britain – Third Edition Fully Revised*, Routledge, London and New York
- Crew, P. 2013. Two Roman Bars from Anglesey, North-West Wales – The Iron Trade at the Edge of the Empire. : https://www.academia.edu/4774340/Two_Roman_bars_from_Anglesey_north-west_Wales_-_the_iron_trade_at_the_edge_of_the_Empire_2013
- Haselgrove, C., Pope, R., 2007 *The Earlier Iron Age in Britain and the near Continent* Oxford: Oxbow Books
- Haselgrove, C., Pope, R., 2007 *The Later Iron Age in Britain* Oxford: Oxbow Books
- Kenney, J ., Flook, R., Jenkins, D., Smith G. 2008 Recent Excavations at Parc Bryn Cegin, Llandygai, near Bangor, North Wales. Full Excavation Report, G1857 Report Number: 764 Vol I
- Lynch, F., 1986 *Museum of Welsh Antiquities Bangor Catalogue of Archaeological Material Bangor: Museum of Welsh Antiquities*
- Lynch, F., 1995 *A Guide to Ancient Historic Wales – Gwynedd* London: HMSO / Cadw
- Lynch, F., Aldhouse-Green S., Davies, J. L., 2000. *Prehistoric Wales* Stroud: Sutton Publishing
- Waddington, K. 2013, *The Settlements of Northwest Wales, From the Late Bronze Age to the Early Medieval Period* Cardiff: University of Wales Press